SICRHAU
GWELLIANT
TRWY
AROLYGU ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

amddiffyn y cyhoedd trwy oruchwyliaeth statudol o fydwragedd

protecting the public through statutory supervision of midwives

# Adroddiad Archwilio Blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLI) 2015-2016

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

© Hawlfraint y Goron 2016 WG27408 ISBN digidol 978 1 4734 5707 2

# Cynnwys


1 Crynodeb Gweithredol ……………………………………………

2 Cyflwyniad ………………………………………………………

3 Canfyddiadau'r Archwiliad ……………………………………… .....

4 Casgliad…………………………………………………………

5 Atodiadau ………………………………………………………

## 1 Crynodeb Gweithredol

**1.1** Sefydliadau o fewn ardaloedd daearyddol yw Awdurdodau Goruchwylio Lleol, ac maen nhw'n gyfrifol am sicrhau bod goruchwyliaeth statudol o fydwragedd yn digwydd yn unol â'r safonau a osodir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o dan Erthygl 43 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, y ceir ei fanylion yn rheolau a safonau bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012). Yng Nghymru, gwneir swyddogaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar ran gweinidogion Cymru. Mae gan yr Awdurdod Goruchwylio Lleol yng Nghymru ddau swyddog bydwreigiaeth a benodwyd i gyflawni swyddogaeth yr awdurdod ar ei ran.

1.2 Canolbwynt cyffredin yr oruchwyliaeth yn ystod y 12 mis diwethaf oedd gweithredu model diwygiedig o oruchwyliaeth a oedd yn galluogi'r Awdurdod Goruchwylio Lleol a'r byrddau iechyd i gyflawni eu dyletswyddau statudol perthnasol. Y cefndir i'r angen am fodel goruchwylio newydd yng Nghymru oedd nodi llawer o risgiau yn y model presennol yn ogystal â nifer gynyddol o ymddiswyddiadau a chaniatadau i fod yn absennol ymhlith goruchwylwyr bydwragedd, nad oeddent mwyach yn gallu cydbwyso gofynion cynyddol y swyddogaeth goruchwylydd gyda rhai eu prif swyddi.

**1.3** Aeth y model cyfredol yn fyw ar 4 Awst 2014, ac ym mis Hydref 2014 gwnaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol gyhoeddi adroddiadau archwilio i nodi'r materion i'w trosglwyddo a'r cynllun gweithredu i fynd â goruchwyliaeth yn ei blaen. Yn ystod y 12 mis o weithredu'r model, bu modd i'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ddarparu sicrwydd ei fod yn bodloni safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth drwy gyhoeddi prif ddangosyddion perfformiad bob chwarter, cynnal cyfarfodydd monitro a gwerthuso bob dau fis, a chynnal adolygiad llawn gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae pob un o'r prosesau archwilio hyn wedi cadarnhau y bu'r Awdurdod Goruchwylio Lleol yn bodloni'r holl safonau, a chawsant eu cofnodi yn adroddiad archwilio blynyddol 2014-2015 ar gyfer Cymru gyfan yr Awdurdod Goruchwylio Lleol.

**1.4** Diben archwiliad blynyddol 2015-2016 yw cadarnhau bod goruchwylwyr bydwragedd yn cyflenwi swyddogaeth oruchwylio ym mhob bwrdd iechyd, mewn perthynas â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, ac i wneud awgrymiadau er mwyn datblygu ymhellach a gwella'n barhaus. Bydd canfyddiadau'r archwiliad ledled Cymru yn llywio'r ffordd ymlaen i roi cefnogaeth i fydwragedd pan roddir y newidiadau deddfwriaethol ar waith a fydd yn rhoi diwedd ar oruchwyliaeth statudol.

**1.5** Mae'r Awdurdod Goruchwylio Lleol yng Nghymru wedi diwygio a mireinio'r broses ar gyfer archwilio gwasanaethau mamolaeth yn seiliedig ar gydymffurfedd â rheolau a safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012). Cynhaliwyd yr archwiliad gan ddefnyddio dull tîm gyda mewnbwn gan gymheiriaid ac adolygwyr lleyg. Nod y broses archwilio oedd asesu p'un a oedd timau goruchwylwyr bydwragedd yn cydymffurfio â'r safonau a bennwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Dyfernir bod

safonau ‘wedi cael eu bodloni’, ‘heb gael eu bodloni’ neu ‘angen eu gwella’. Pan nad yw safon yn cael ei bodloni, cytunir ar gynllun gweithredu'n ffurfiol gyda'r Awdurdod Goruchwylio Lleol, sy'n cael ei gyflawni o fewn amserlen y cytunir arni.

**1.6** Bydd yr adroddiad hwn yn cyflwyno’r sefyllfa o ran goruchwyliaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar adeg yr archwiliad, a bydd yn darparu sicrwydd bod y model diwygiedig wedi cael ei roi ar waith yn llawn. Bydd yn darparu prif bwyntiau'r model goruchwylio cyfredol, sydd wedi bod yn gyfrifol am ddatblygu goruchwyliaeth i fod yn ddarpariaeth gwasanaethau amserol ac effeithiol o ansawdd uchel.

**1.7 Trosolwg**

Nid oedd y broses archwilio flynyddol a gyflwynwyd yn 2011 yn cael ei hystyried yn addas i'r diben erbyn hyn, gan fod y goruchwylwyr bydwragedd bellach yn gweithio fel rhan o'r Awdurdod Goruchwylio Lleol. Yn ystod 2014-2015, roedd y goruchwylwyr bydwragedd a benodwyd i fodel diwygiedig goruchwyliaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn canolbwyntio ar fodloni'r dangosyddion perfformiad allweddol a nodwyd ym Manyleb Gwasanaeth Diogelu Goruchwyliaeth at y Dyfodol. Cafodd y pwyslais hwn ei gynnal gan wella a dylanwadu ymhellach ar newid arfer. Roedd cynnydd yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol yn cael ei fonitro drwy’r Grŵp Monitro a Gwerthuso a thrwy Uwch Grŵp Arweinyddiaeth AGIC. Roedd yr adroddiadau chwarterol yn cael eu paratoi a’u rhannu gyda phenaethiaid bydwragedd i ganiatáu monitro pellach ac i fynd i’r afael ag unrhyw heriau penodol i gynnydd.

Er bod yr Awdurdod Goruchwylio Lleol yn nodi cydymffurfedd â safonau’r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ei adroddiad blynyddol a'r adroddiad archwilio a gyhoeddwyd yn Awst 2015, mae’r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi argymell bod pob bwrdd iechyd yn cael ymweliad archwilio unigol a bod y canlyniadau'n cael eu cyflwyno mewn adroddiad (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Hydref 2015).

Mae’r Awdurdod Goruchwylio Lleol wedi bod yn glir o’r cychwyn mai nod y broses archwilio yw cefnogi datblygiad parhaus trwy ddenu adnoddau a hyfforddiant priodol yn ôl y gofyn. Mae'r Awdurdod Goruchwylio Lleol yn gweithio’n agos gyda chydweithwyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt i ail-ddylunio’r broses archwilio ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan ei fod o’r farn y bydd craffu allanol ar yr awdurdod yn hanfodol nawr bod goruchwylwyr yn gweithio iddo yn uniongyrchol. Gobeithiwn y bydd personél bwrdd iechyd priodol yn manteisio ar y cyfle i fod yn rhan o’r broses archwilio fel ffordd o ddarparu’r sicrwydd angenrheidiol i wasanaethau mamolaeth, cyfarwyddwyr gweithredol a’r bwrdd bod goruchwyliaeth statudol yn cefnogi amddiffyn y cyhoedd.

Caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi maes o law ar wefan AGIC yn **www.hiw.org.uk/hafan**

## 2 Cyflwyniad

2.1 Disgwylir i oruchwylwyr bydwragedd weithio yn unol â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i ymrymuso bydwragedd i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol gan wella'r broses o amddiffyn y cyhoedd. Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Goruchwylio Lleol gyflwyno adroddiad blynyddol ysgrifenedig i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i'w hysbysu am weithgareddau, materion allweddol, arfer da a thueddiadau sy'n effeithio ar wasanaethau mamolaeth yn ei ardal. Er mwyn hysbysu'r broses hon, bydd Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol yn cynnal archwiliadau o wasanaethau mamolaeth yn ei ardal.

2.2 Mae'r broses ar gyfer archwilio safonau'r Awdurdod Goruchwylio Lleol yn defnyddio dull adolygiad gan gymheiriaid yn erbyn holl safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac yna ymweliad archwilio gan dîm yr awdurdod i wirio tystiolaeth a gyflwynwyd yn erbyn safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys Swyddog Bydwreigiaeth penodol yr Awdurdod Goruchwylio Lleol, o leiaf un adolygydd lleyg yr Awdurdod Goruchwylio Lleol, a goruchwylydd bydwragedd profiadol o fwrdd iechyd cyfagos. Mae hyn yn galluogi dull tîm o archwilio, yn cynnig cyfle ar gyfer adolygu a meincnodi gan gymheiriaid, ac yn cefnogi rhannu arfer gorau hefyd. Mae cynnwys adolygwyr lleyg yr Awdurdod Goruchwylio Lleol yn y tîm yn sicrhau safbwynt y defnyddiwr trwy gydol y broses archwilio, a chroesawyd hyn ar bob lefel.

**2.3** Cynhaliwyd yr ymweliad archwilio ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 6 a 7 Hydref 2015 fel y cynlluniwyd. Gwahoddwyd staff allweddol i fynychu ynghyd â thîm goruchwylio'r bwrdd iechyd **(Atodiad A – Rhaglen Archwilio)**. Hefyd, bydd Swyddog Bydwragedd yr Awdurdod Goruchwylio Lleol yn cynnal archwiliadau ymweliadau pyramid chwarterol yn nhrydydd chwarter y flwyddyn i adolygu'r cynnydd fel rhan o'r cylch archwiliad blynyddol. Darparwyd adroddiadau adborth unigol i'r Pennaeth Bydwreigiaeth ar unwaith ar ôl yr ymweliad, gan nodi meysydd o arfer da neu godi ymwybyddiaeth lle'r oedd angen datblygiad.

**2.4** Cynhaliwyd yr archwiliad blynyddol gan Julie Richards, Swyddog Bydwragedd yr Awdurdod Goruchwylio Lleol, a chafodd ei chynorthwyo gan oruchwylydd bydwragedd profiadol, sef Wendy Sunderland Evans o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, adolygydd lleyg yr Awdurdod Goruchwylio Lleol Liz David, a'r goruchwylwyr bydwragedd dan hyfforddiant, Alison Jones.

2.5 Dechreuodd yr ymweliad archwilio gyda throsolwg bras gan Julie Richards ar ffurf cyflwyniad, ac yn dilyn hyn cafwyd cyflwyniad PowerPoint gan y goruchwylwyr bydwragedd a oedd yn rhoi trosolwg o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'i weithgareddau goruchwylio tîm yn ogystal â llwyddiannau'r goruchwylwyr bydwragedd mewn perthynas ag arferion da. Yn ogystal, rhoddodd yr ymweliad archwilio gyfle i'r Cyfarwyddwr Nyrsio, y Pennaeth Bydwreigiaeth, y Fydwraig Risg, goruchwylwyr bydwragedd, bydwragedd, bydwragedd dan hyfforddiant, a defnyddwyr gwasanaeth gyfarfod a rhannu gwybodaeth ar oruchwyliaeth. (**Atodiad B – Mynychwyr**).

## 3 Canfyddiadau'r Archwiliad

### Crynodeb o ganfyddiadau archwilio’r Awdurdod Goruchwylio Lleol – nodi risgiau a gwireddu manteision

Gwnaeth y tîm goruchwylwyr bydwragedd fodloni holl safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a thynnwyd sylw’r tîm at un maes i’w wella

| **Crynodeb o'r prif ganfyddiadau** | | |
|---|---|---|
| **Safon bydwragedd/yr Awdurdod Goruchwylio Lleol berthnasol** | **Prif risg/rheolaeth** | **Canlyniad**<br>***Wedi cael ei bodloni, heb gael ei bodloni, angen ei gwella*** |
| **Rheol 4: Hysbysiad o fwriad i ymarfer** | Cyflwynir gwybodaeth gywir a hysbysiadau o fwriad i ymarfer wedi’u cwblhau bob blwyddyn, neu ar gyfer cyflogeion newydd cyn i'r bydwragedd ddechrau ymarfer.<br><br>Mae cofnodion cywir cronfa ddata'r Awdurdod Goruchwylio Lleol yn cael eu cwblhau ar gyfer bydwragedd sy'n gadael y sefydliad. | **Wedi cael ei bodloni** – roedd tystiolaeth o ffurflenni misol ynghylch cyflwyno bwriad i ymarfer ar gyfer dechreuwyr newydd a bydwragedd sy'n gadael y sefydliad. |
| **Rheol 6: Cadw cofnodion** | Mae bydwragedd yn cydymffurfio â'r systemau sydd wedi'u llunio i gadw cofnodion clinigol cywir yn ddiogel am 25 o flynyddoedd. | **Wedi cael ei bodloni** – roedd tystiolaeth yn y meysydd clinigol bod yno proses ar gyfer storio cofnodion clinigol yn ddiogel am 25 mlynedd. |
| **Rheol 8: Goruchwyliwr bydwragedd** | Mae goruchwylwyr bydwragedd dan hyfforddiant yn cael eu recriwtio a’u cefnogi'n briodol ar ôl iddynt gwblhau'r rhaglen paratoi goruchwylwyr bydwragedd yn llwyddiannus. | **Wedi cael ei bodloni –** roedd y goruchwylydd bydwragedd dan hyfforddiant wedi cael cefnogaeth ar ôl cwblhau'r rhaglen paratoi goruchwylwyr, ac roedd cynllun preceptoriaeth ar waith i gefnogi datblygiad fel goruchwylydd bydwragedd newydd ei benodi. Cafodd proses ddethol ei rhoi ar waith yn ddiweddar ar gyfer cynllun yr hydref yn unol â chanllawiau cenedlaethol swyddogion bydwreigiaeth awdurdodau goruchwylio lleol y DU. |
| **Rheol 9: Adnoddau digonol o fewn y gymhareb a argymhellir** | Mae cymarebau goruchwylwyr bydwragedd i fydwragedd yn parhau o fewn y gymhareb a argymhellir, sef 1:15.<br><br>Mae gan y goruchwylwyr bydwragedd adnoddau digonol i'w cefnogi yn eu rôl. | **Wedi cael ei bodloni –** mae adnoddau digonol ar gael i fodloni'r gymhareb a argymhellir, sef un goruchwylydd bydwragedd i bob 15 o fydwragedd. Mae'r goruchwylwyr bydwragedd yn cael cefnogaeth dda yn eu gwaith ledled pob maes yn y bwrdd iechyd. |

| | | |
|---|---|---|
| **Rheol 9: Cydymffurfiaeth Adolygiad Goruchwylio Blynyddol** | Cynhelir Adolygiad Goruchwylio Blynyddol ar gyfer pob bydwraig i ddangos tystiolaeth ynghylch sut maen nhw wedi bodloni gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i gynnal eu cofrestriad bydwreigiaeth. | **Wedi cael ei bodloni –** ar adeg yr ymweliad archwilio, roedd 100% o gydymffurfedd â'r broses Adolygiad Goruchwylio Blynyddol. Gwnaeth y tîm goruchwylwyr bydwragedd nodi maes i'w wella er mwyn sicrhau bod yr holl gofnodion Adolygiad Goruchwylio Blynyddol yn cael eu lanlwytho i gronfa ddata'r Awdurdod Goruchwylio Lleol. |
| **Rheol 10: Proses ymchwilio goruchwylwyr bydwragedd** | Mae goruchwylwyr bydwragedd yn ymgymryd ag ymchwiliadau mewn ffordd agored, deg ac amserol.<br><br>Mae goruchwylwyr bydwragedd yn cefnogi bydwragedd i gwblhau argymelliadau perthnasol mewn perthynas â myfyrio, cynlluniau gweithredu lleol, neu raglenni ymarfer yr Awdurdod Goruchwylio Lleol. | **Wedi cael ei bodloni –** ar y cyfan, ymgymerwyd ag ymchwiliadau goruchwylwyr bydwragedd mewn ffordd agored, deg ac amserol gyda chymorth gan oruchwylwyr bydwragedd lleol i gwblhau argymelliadau perthnasol. |

## 3.1 Darparu goruchwyliaeth effeithiol

Mae Awdurdod Goruchwylio Lleol Cymru yn gyfrifol am benodi nifer briodol o oruchwylwyr bydwragedd i sicrhau bod gan yr holl fydwragedd sy'n ymarfer yng Nghymru fynediad at oruchwyliaeth. Mae Rheol 9 rheolau a safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth[1] yn ei gwneud yn ofynnol nad yw'r gymhareb goruchwylwyr bydwragedd i fydwragedd yn fwy nag 1:15 fel rheol, ond bod rhaid iddi, fel isafswm, adlewyrchu angen ac amgylchiadau lleol, heb beryglu diogelwch menywod.

O 31 Mawrth 2015, roedd 16 o oruchwylwyr bydwragedd llawn amser yn cael eu cyflogi, ac roedd 1,786 o fydwragedd wedi hysbysu'r Awdurdod Goruchwylio Lleol am eu bwriad i ymarfer bydwreigiaeth; roedd hyn yn golygu mai cymhareb Cymru gyfan oedd 1:11. Ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, roedd 300 o fydwragedd a 2.4 o oruchwylwyr bydwragedd cyfwerth ag amser llawn, sef cymhareb wedi'i chymhwyso o 1:11.

### 3.1.1 Penodi goruchwylwyr bydwragedd, dad-ddethol, ymddiswyddo, ac absenoldebau gyda chaniatâd

Ar ôl gweithredu'r model, roedd y tîm goruchwylwyr bydwragedd (2.4 o oruchwylwyr bydwragedd cyfwerth ag amser llawn) yn cynnwys tri aelod o staff. Yn ystod Mehefin 2015, cafodd un o'r goruchwylwyr bydwragedd ddyrchafiad i fod yn uwch-fydwraig, felly gwnaeth goruchwylydd bydwragedd preswyl ddechrau ar ei chyfnod patrwm cylch yn gynnar. Mae'r bwrdd iechyd wedi cefnogi bydwraig i ymgymryd â'r rhaglen paratoi goruchwylwyr

bydwragedd, a ddaeth i ben fis Medi 2015. Ar yr adeg hon, mae goruchwylydd bydwragedd arall o'r tîm presennol wedi bod yn llwyddiannus wrth gael rôl fel ymarferydd bydwreigiaeth, felly ar hyn o bryd, mae'r goruchwylydd bydwragedd sydd newydd gwblhau'r rhaglen baratoi yn cael cefnogaeth i ymgymryd â chyfnod preceptoriaeth fel rhan o'r tîm.

Roedd yr Awdurdod Goruchwylio Lleol yn cynnal proses ddethol ar gyfer y rhaglen paratoi goruchwylwyr bydwragedd derfynol yn ystod hydref 2015, ac roedd tri o ymgeiswyr llwyddiannus ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r tri ohonynt yn cael eu cefnogi gan y bwrdd iechyd i ymgymryd â'r rhaglen. Bydd hyn yn sicrhau bod digon o oruchwylwyr bydwragedd ar gyfer cynllun cylchdro nes mis Mawrth 2017 wrth aros am arweiniad wrth y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ynghylch amserlen ar gyfer y newidiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer goruchwyliaeth statudol.

### 3.1.2 Dulliau ar gyfer darparu mynediad parhaus at oruchwylydd bydwragedd

Mae Rheol 9[2] yn nodi'r gofynion ar gyfer goruchwylio bydwragedd, ac mae'n ofynnol bod gan bob bydwraig oruchwylydd bydwragedd penodol y mae'n cyfarfod ag ef o leiaf unwaith y flwyddyn ar gyfer adolygiad goruchwylio blynyddol. Yn ystod 2014-15, roedd y gyfradd gydymffurfio â'r cyfarfodydd Adolygiad Goruchwylio Blynyddol yn 98% ar gyfartaledd ar draws y flwyddyn archwilio. Cyfradd cydymffurfio â'r cyfarfodydd Adolygiad Goruchwylio Blynyddol ar adeg yr archwiliad oedd 100%. Wrth baratoi ar gyfer yr archwiliad, gwnaeth y tîm goruchwylwyr bydwragedd nodi er bod dyddiad cyfarfod Adolygiad Goruchwylio Blynyddol ar gyfer pob bydwraig yn cael ei ychwanegu at gronfa ddata'r Awdurdod Goruchwylio Lleol, nid oedd bob amser yn cael ei gefnogi trwy lanlwytho holl ddogfennau'r Adolygiad Goruchwylio Blynyddol.

Mae'r Awdurdod Goruchwylio Lleol yn annog bod Adolygiadau Goruchwylio Blynyddol yn cael eu cwblhau'n electronig, ac yna caiff y pro fformas eu storio ar gronfa ddata genedlaethol yr Awdurdod Goruchwylio Lleol. Gwnaeth y tîm goruchwylwyr bydwragedd gydnabod bod angen iddynt roi camau gweithredu ar waith ar unwaith er mwyn sicrhau eu bod yn cadw cofnodion yn effeithiol er mwyn ategu eu cryfder mewn cydymffurfio â'r broses Adolygiad Goruchwylio Blynyddol. Roedd y tîm goruchwylwyr bydwragedd wedi llunio cynllun gwella er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg hwn.

Mae monitro lefel cydymffurfio â'r broses Adolygiad Goruchwylio Blynyddol wedi bod yn elfen bwysig o'r paratoi ar gyfer gweithredu'r model cyfredol. Mae'r Awdurdod Goruchwylio Lleol wedi cydnabod yr angen i sicrhau nad yw goruchwylwyr bydwragedd sy'n gweithio ar batrwm

---

[1] Rheolau a Safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012)
[2] Mae Rheol 9 rheolau a safonau bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn nodi'r gofynion ar gyfer goruchwylio bydwragedd.

cylch yn cael eu gorlwytho â gwaith ychwanegol a bod cofnodion goruchwylwyr bydwragedd mewn cyflwr addas i'w trosglwyddo ac yn cynnwys gwybodaeth gyfredol a pherthnasol pan fydd goruchwylwyr bydwragedd yn gadael eu swyddi.

Yn dilyn ein harchwiliad yn ystod 2014-2015, casglwyd tystiolaeth i ddangos bod y prif heriau mewn cyflenwi goruchwyliaeth grŵp wedi cael eu datrys. Yr heriau a nodwyd oedd: sicrhau bod pob bydwraig yn gallu mynychu sesiwn goruchwyliaeth grŵp; sicrhau bod bydwragedd o dimau gwahanol yn bresennol ym mhob goruchwyliaeth grŵp; a bod gan oruchwylwyr bydwragedd ymagweddiad cyson ledled Cymru. Gwnaethom ganfod bod mwyafrif helaeth y bydwragedd wedi cwblhau eu Hadolygiad Goruchwylio Blynyddol trwy gyfrwng goruchwyliaeth grŵp a'u bod i gyd wedi trafod buddiannau cael amrywiaeth o fydwragedd o dimau gwahanol fel rhan o'r broses oruchwyliaeth. Roedd y goruchwylwyr yn gallu disgrifio sesiwn hyfforddiant a oedd yn ategu at ddatblygiad ymagweddiad cyson i gyflenwi goruchwyliaeth a ble mae canllawiau newydd yn cael eu datblygu. Roeddem yn fodlon bod yr heriau a nodwyd y llynedd wedi derbyn sylw ac wedi cael eu datrys.

Gwnaeth archwiliad 2014-15 ganfod nifer o fuddiannau a chyfleoedd a ddarparwyd yn sgil goruchwyliaeth grŵp gan gynnwys:

- goruchwyliaeth sy'n fwy effeithiol trwy greu cyfleoedd i wella diogelwch y cyhoedd ymhellach
- dysgu ar y cyd
- ymwybyddiaeth well o ofynion ail-ddilysu
- gwella ansawdd y portffolios
- creu cyfleoedd er mwyn i adborth gan fenywod gael ei gynnwys o fewn datblygiad proffesiynol parhaus

Yn ystod yr ymweliad archwilio hwn, gwnaethom edrych am dystiolaeth bellach o'r rhain yn ogystal â buddiannau eraill.

Roedd yn well gan fwyafrif helaeth y bydwragedd y model goruchwylio grŵp yn hytrach na'r sesiynau un i un blaenorol, ac yn bennaf roeddent yn nodi'r cyfle ar gyfer dysgu ar y cyd a dealltwriaeth well o rolau eu cydweithwyr. Roedd un cyfwelai yn teimlo bod y model grŵp wedi helpu bydwragedd i gael gwell dealltwriaeth o brofiad y ferch mewn gwasanaethau mamolaeth. Rhoddodd y goruchwylydd bydwragedd enghraifft o sefyllfa a oedd wedi derbyn sylw drwy oruchwyliaeth grŵp ac wedi arwain at wella diogelwch y cyhoedd. Roedd bydwragedd hefyd yn cydnabod pŵer lleisiau cyfunol drwy oruchwyliaeth grŵp. Roedd effeithiolrwydd y model goruchwylio grŵp wedi cael ei nodi gan y fydwraig ddiogelu, sy'n ymgorffori'r model goruchwylio grŵp ar gyfer goruchwyliaeth diogelu.

Ers rhoi'r model newydd ar waith, darperir rota ar alwad 24 awr goruchwylwyr bydwragedd Cymru gyfan ar gyfer pob bydwraig sy'n ymarfer o fewn yr Awdurdod Goruchwylio Lleol, er mwyn iddynt gael mynediad 24 awr at oruchwylydd bydwragedd ac i sicrhau bod goruchwylydd bydwragedd ar gael i gynnig arweiniad a chymorth i fenywod sy'n cael mynediad at wasanaethau mamolaeth (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012). Darperir rhif cyswllt canolog, ac mae'r holl rifau cyswllt, p'un a ydynt wrth ddefnyddwyr gwasanaeth, aelodau o'r cyhoedd neu fydwragedd, yn cael eu cofnodi ar fformat SBAR (fformat sy'n disgrifio Sefyllfa, Cefndir, Asesiad ac Argymhellion ynghylch unrhyw fater). Mae tueddiadau a themâu'n cael eu coladu bob mis, a darparwyd adroddiad chwe mis i bob Pennaeth Bydwreigiaeth yn Ebrill 2015. Yn ystod y 12 mis diwethaf, gwnaed 155 o alwadau i rif ar alwad 24 awr Cymru gyfan. Roedd 13 o'r galwadau hyn yn gysylltiadau o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Ar y cyfan, ymddengys bod pob galwad yn briodol, ac mae'r rhan fwyaf o gysylltiadau SBAR yn cael eu rhannu â'r Pennaeth Bydwreigiaeth a'r tîm goruchwylwyr bydwragedd lleol er mwyn iddynt gymryd camau dilynol yn ôl yr angen.

Canfu'r archwiliad ffôn o gyfraddau ymateb ar alwad a gynhaliwyd gan adolygwyr lleyg yr Awdurdod Goruchwylio Lleol ym mis Ionawr 2015 fod dau faes clinigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn darparu'r rhif cywir ar alwad pan fod y switsfwrdd yn cysylltu â nhw. Rhoddwyd y rhif ar alwad cywir, ac roedd disgrifiad da o rôl goruchwylwyr bydwragedd. Roedd rhywfaint o'r wybodaeth hon yn hen, ac fe fyddai ychwanegu enghreifftiau ynghylch pa bryd y byddai'n briodol i fenyw neu ei theulu gysylltu â goruchwylydd yn gwella effeithiolrwydd y byrddau. Roedd taflen wybodaeth 'Ydyn ni'n esgor ar wasanaeth da?' ar gael ar rhai byrddau, ond nid oedd i'w gweld ar unrhyw un o'r silffoedd gwybodaeth nac yn unman arall yn y naill leoliad na'r llall lle cynhaliwyd ein hymweliad. Byddai sicrhau bod y daflen hon ar gael yn ehangach, yn ogystal â'i gynnwys ar hysbysfwrdd gwybodaeth yn y clinig cyn geni, yn helpu i godi ymwybyddiaeth ynghylch goruchwyliaeth.

Roedd swyddogion bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol yn cyfarfod bob tri mis, ynghyd â Phennaeth Bydwreigiaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'r tîm goruchwylwyr bydwragedd lleol, i adolygu cydymffurfiaeth â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, gan ddefnyddio cerdyn sgorio bob chwarter. Roedd y tîm goruchwylwyr bydwragedd lleol yn cynnal cyfarfodydd misol â'r Pennaeth Bydwreigiaeth er mwyn sicrhau bod cyfathrebu dwyffordd eglur ar holl agweddau'r swyddogaeth goruchwylio. Mae'r Awdurdod Goruchwylio Lleol yn cynnal cyfarfodydd rheoli perfformiad â goruchwylwyr bydwragedd o bob cwr o Gymru. Mae'r cyfarfod misol hwn, sydd â'r prif nod o reoli cydymffurfiad â'r dangosyddion perfformiad allweddol a nodir yn y fanyleb wasanaeth, hefyd yn galluogi goruchwylwyr bydwragedd i adeiladu tîm cydlynol ac i ffurfio rhwydwaith cefnogol. Rhoddodd ymgysylltiad Swyddog Bydwragedd yr Awdurdod Goruchwylio Lleol gyfle i roi cyngor a chefnogaeth ychwanegol i'r goruchwylwyr bydwragedd mewn perthynas â

materion y gwasanaeth a allai fod yn berthnasol i amddiffyn y cyhoedd yn ogystal â galluogi'r Awdurdod Goruchwylio Lleol i oruchwylio goruchwylwyr bydwragedd wrth iddynt gynllunio a gweithredu eu cynlluniau gwaith parhaus.

### 3.2 Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn goruchwyliaeth a safbwynt adolygwyr lleyg yr Awdurdod Goruchwylio Lleol

Roedd yr adolygydd lleyg yn cymryd rhan lawn yn y broses archwilio, ac roedd ganddo ddiddordeb penodol mewn deall safbwyntiau menywod a'u teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau mamolaeth, a gweithredu ar ganfyddiadau archwiliad 2014-15. Roedd yr archwiliad hwn wedi canolbwyntio'n benodol ar dri phrif faes: profiadau a bodlonrwydd menywod a oedd wedi cysylltu â goruchwylydd; hygyrchedd goruchwylwyr bydwragedd ar gyfer menywod a'u teuluoedd; ac effeithiolrwydd goruchwyliaeth grŵp a datblygiad proffesiynol parhaus.

Gwnaeth yr adolygydd lleyg siarad â chwech o fenywod ar y wardiau ôl-enedigol mewn dau leoliad ac â chadeirydd Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth, yn ogystal â nifer o fydwragedd a'r tîm goruchwylwyr bydwragedd. Roedd ymwybyddiaeth menywod o oruchwylwyr bydwragedd a'r rôl maen nhw'n gallu ei chael i gefnogi menywod yn parhau'n isel, ac nid oedd yr un o'r menywod y gwnaethom siarad â nhw yn adnabod y term 'goruchwylydd bydwragedd'. Roedd yr holl fenywod yn fodlon iawn ar y gofal yr oeddent wedi'i dderbyn yn y gymuned ac ar y ward esgor, ward geni, a'r ward ôl-enedigol. Roedd gan un fenyw bryder, ac roedd hyn yn cael ei gyfeirio at oruchwylydd yn ystod yr ymweliad ac fe gafodd ei ddatrys ar y pryd. Gwnaeth cadeirydd Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth gadarnhau bod y goruchwylwyr yn fynychwyr rheolaidd yng nghyfarfodydd y pwyllgor, a disgrifiodd gyfarfod diweddar lle roedd trafodaeth ynghylch dewisiadau geni wedi cynnwys y goruchwylydd bydwragedd. Roedd y goruchwylwyr bydwragedd yn gallu disgrifio nifer o achlysuron lle roeddent wedi cynnal sgwrs â menywod, a'r prif reswm dros gysylltu â goruchwylydd o hyd yw menywod sydd am gynllunio genedigaeth tu hwnt i lwybrau geni arferol. Mae tystiolaeth glir bod menywod yn gallu cael mynediad at oruchwylwyr. Nid oedd yr archwiliad hwn yn asesu bodlonrwydd y menywod a oedd wedi cysylltu â goruchwylydd.

Mae byrddau goruchwylwyr bydwragedd ar gael i'r cyhoedd ym mhob rhan o'r gwasanaethau mamolaeth, ac eithrio clinig cynenedigol yn Ysbyty Brenhinol Gwent, ac maen nhw'n cydymffurfio â threfn Cymru gyfan a gytunwyd arni. Mae gallu menywod i gael mynediad at oruchwylwyr bydwragedd wedi gwella ac erbyn hyn yn dda. Mae adran gwefan Aneurin Bevan sy'n perthyn i oruchwylwyr bydwragedd yn canolbwyntio llawer mwy erbyn hyn ar wybodaeth sy'n briodol i fenywod a'u teuluoedd ac yn darparu'r rhif ar alwad cywir. Mae hwn yn welliant sylweddol ers y llynedd. Byddai'n fuddiol ychwanegu dolen at daflen Cymru 'Ydyn ni'n esgor

ar wasanaeth da?'

### 3.3 Ymgysylltu â bydwragedd dan hyfforddiant

Fel rhan o dystiolaeth yr archwiliad, gwnaeth y goruchwylwyr bydwragedd ddarparu tystiolaeth ar sut roeddent wedi ymgysylltu â Phrifysgol Caerdydd a Phrifysgol De Cymru fel eu sefydliadau addysg uwch. Roedd y dystiolaeth yn darparu manylion nifer y gweithgareddau yr oedd y goruchwylwyr bydwragedd wedi gallu eu cynnig er mwyn sicrhau bod bydwragedd dan hyfforddiant yn gyfarwydd â chysyniad a phwysigrwydd goruchwyliaeth wrth baratoi ar gyfer cofrestru fel bydwraig. Roedd y cyfleoedd niferus a gynigir i fyfyrwyr gael profiad o oruchwyliaeth ar waith yn cynnwys nifer o gyflwyniadau gan oruchwylwyr bydwragedd i sesiynau dysgu yn y brifysgol, a bydwragedd dan hyfforddiant yn cael eu hannog i fynychu grŵp adolygiadau goruchwylio blynyddol gyda'u mentoriaid. Mae'r tîm goruchwylwyr bydwragedd yn cydnabod bod angen cynyddu'r lefel o ymgysylltiad â Phrifysgol De Cymru.

### 3.4 Proses archwiliad

Cafodd wyth ymchwiliad gan oruchwylwyr bydwragedd eu cynnal neu eu cwblhau yn ystod y cyfnod 12 mis rhwng 1 Awst 2014 a 1 Awst 2015. Gwnaeth y tîm goruchwylwyr bydwragedd lleol ddarparu tystiolaeth gadarn o'r mesurau maen nhw'n eu cymryd er mwyn sicrhau bod ymchwiliadau gan oruchwylwyr bydwragedd lleol yn cael eu cynnal ymhen y cyfnod o 45 diwrnod. Roedd tri allan o'r wyth ymchwiliad a gynhaliwyd tu hwnt i'r cyfnod amser a argymhellir, sef 45 diwrnod. Byddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn argymell i'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ystyried y gwersi a ddysgwyd ar yr amser a gymerwyd gan y goruchwylwyr bydwragedd allanol a oedd yn ymgymryd â'r archwiliadau hyn, a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar y gwersi a ddysgwyd i'r bydwragedd dan sylw. Gwnaeth amseroldeb y broses hefyd ar gyfer un ymchwiliad arwain at y teulu yn cwrdd â chynrychiolydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'r goruchwylydd bydwragedd allanol a oedd yn cynnal yr archwiliad mewn cyfarfodydd ar wahân.

Roedd y tîm adolygu o'r farn bod diwylliant anfeirniadol a diduedd yn bodoli gyda dull cefnogol tuag at ymchwiliadau. Roedd y bwrdd iechyd a'r tîm goruchwylwyr bydwragedd yn gallu dangos tystiolaeth o'r pwyslais ar gau'r ddolen ar ôl y broses ymchwilio, gydag adolygiad rhagweithiol o'r gwersi a ddysgwyd yn ystod cyfarfod misol uwch-fydwragedd a goruchwylwyr bydwragedd. Roedd rhyngwyneb cryf â'r tîm llywodraethu, a chyfeiriad teithio oedd yn cysylltu prosesau goruchwylwyr bydwragedd â gweithdrefnau a arweinir gan gyflogaeth. Roedd y tîm goruchwylwyr bydwragedd wedi defnyddio'r amser paratoi ar gyfer yr ymweliad archwilio i sicrhau bod yr holl gofnodion ynglŷn â ffurflenni gweithredu myfyriol, cynlluniau gweithredu lleol, a rhaglenni ymarfer yr Awdurdod Goruchwylio Lleol wedi cael eu

lanlwytho i gronfa ddata’r Awdurdod Goruchwylio Lleol. Mae'r Pennaeth Bydwreigiaeth wedi paratoi dogfen ar y gwersi i'w dysgu oddi wrth Kirkup, sydd wedi cael ei chyflwyno i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch y bwrdd iechyd.

### 3.5 Arferion nodedig ac arloesol

- Mae’r tîm goruchwylwyr bydwragedd wedi cael ei enwebu fel tîm bwrdd iechyd y flwyddyn.

- Mae’r tîm goruchwylwyr bydwragedd wedi chwarae rôl ganolog ym mhrosiect ailddilysu arbrofol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae eu cyfraniad trwy oruchwyliaeth grŵp ynghylch creu a datblygu portffolios ac esboniadau o'r gofynion i ailddilysu wedi paratoi bydwragedd ar gyfer y cyfnod pontio. Mae goruchwylwyr bydwragedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi rhannu eu dysgu â thîm Cymru gyfan er mwyn rhaeadru'r hyn a ddysgwyd ledled y wlad.
- Nodwyd effeithiolrwydd y model goruchwylio grŵp gan y Fydwraig Ddiogelu, sy'n ymgorffori'r model goruchwylio grŵp ar gyfer goruchwyliaeth diogelu.
- Mae tudalennau gwefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sy'n ymwneud â goruchwylwyr bydwragedd yn canolbwyntio llawer mwy erbyn hyn ar wybodaeth sy'n berthnasol i fenywod a'u teuluoedd ac yn darparu'r rhif ar alwad cywir. Mae hwn yn welliant sylweddol ers y llynedd.

### 3.6 Meysydd y gellid eu gwella

- Mae angen i'r tîm goruchwylwyr bydwragedd weithio gyda chydweithwyr ym maes goruchwylio bydwragedd i sicrhau bod yr holl ddogfennau Adolygiad Goruchwylio Blynyddol yn ystod y 12 mis diwethaf wedi cael eu lanlwytho'n llwyddiannus i gronfa ddata’r Awdurdod Goruchwylio Lleol.
- Cyflwyno cyfarfod gadael y swydd gyda phob goruchwylydd bydwragedd wrth iddynt gylchdroi o'r rôl er mwyn sicrhau bod yr holl ddogfennau a chofnodion yn cydymffurfio â safonau’r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.
- Gwelliant i'r broses ymchwilio gan oruchwylwyr bydwragedd i sicrhau bod pob cyfarfod â'r teulu yn cael eu cynnal ar y cyd â'r bwrdd iechyd a'r goruchwylydd bydwragedd sy'n cynnal yr ymchwiliad.
- Byddai hefyd yn ddefnyddiol i gynnwys dolen ar y wefan at y daflen 'Ydyn ni'n esgor ar wasanaeth da?'
- Trefn amserol er mwyn i TGCh gefnogi'r cyfnod pontio rhwng y rhaglen paratoi goruchwylwyr bydwragedd a phenodi goruchwylydd bydwragedd.

I grynhoi, nododd yr archwiliad blynyddol o oruchwyliaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fod holl safonau’r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ‘wedi cael eu bodloni’.

## 4 Casgliad

Mae’r Awdurdod Goruchwylio Lleol yn ddiolchgar i bob goruchwylydd bydwragedd, presennol a blaenorol, am eu cyfraniad a’u hymrwymiad i’r ddarpariaeth o oruchwyliaeth statudol a’r cyfraniad y mae goruchwylwyr bydwragedd yn ei wneud i gefnogi bydwragedd i gefnogi menywod. Rydym o’r farn y gall y model goruchwylio diwygiedig yng Nghymru, wedi ei ddarparu gan dîm o oruchwylwyr bydwragedd sydd â goruchwyliaeth fel eu hunig swyddogaeth, ddim ond fod er gwell. Ers rhoi'r model newydd ar waith, gwelwyd canlyniadau gwell o ran cwblhau ymchwiliadau a chynnydd yn y cydymffurfedd â’r broses Adolygiad Goruchwylio Blynyddol. Derbyniwyd adborth cadarnhaol gan fydwragedd ynghylch y model newydd ar gyfer goruchwyliaeth, yn benodol yr oruchwyliaeth grŵp ar gyfer yr Adolygiad Goruchwylio Blynyddol, sy'n cael ei chroesawu oherwydd y ffaith bod rhywfaint o agwedd negyddol gan rai am ba mor llwyddiannus fyddai’r prosiect.

Disgrifiwyd y tîm goruchwylwyr bydwragedd lleol yn gyson fel hynod weladwy, yn hygyrch ac yn hawdd siarad â nhw, ac mae'n ymddangos bod gwell eglurder o ran cyfrifoldebau ac atebolrwydd. Mae'n amlwg bod y tîm goruchwylwyr bydwragedd yn cydweithio â’r holl randdeiliaid perthnasol ac yn gwneud cyfraniadau rhagorol i agenda Cymru gyfan. Mae’r broses archwilio flynyddol yn dyst i lwyddiannau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ystod y flwyddyn, a dylid llongyfarch y tîm goruchwylwyr bydwragedd am gael eu henwebu fel tîm bwrdd iechyd y flwyddyn. Mae nifer o feysydd o arferion nodedig y mae'r tîm archwilio wedi argymell y dylai tîm goruchwylwyr bydwragedd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan rannu fel arfer da ledled Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio goruchwyliaeth yn ystod y broses o baratoi ar gyfer ailddilysu a chanolbwyntio ar ansawdd y portffolios. Mae'n nodedig bod effeithiolrwydd y model goruchwylio grŵp wedi cael ei nodi gan y Fydwraig Ddiogelu sy'n ymgorffori'r model goruchwylio grŵp ar gyfer goruchwyliaeth diogelu.

Heb os nac oni bai, yr her fwyaf ar gyfer darpariaeth goruchwyliaeth statudol ar draws y DU fydd cynnal y momentwm a'r ymroddiad i'r rôl wrth i newidiadau deddfwriaethol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ddod i rym. Mae'r Awdurdod Goruchwylio Lleol yng Nghymru yn credu ei fod mewn sefyllfa gryfach, er nad ydym yn hunanfodlon, gan gydnabod y bydd yn rhaid inni weithio'n galed er mwyn cadw goruchwylwyr bydwragedd yn eu swyddi wrth i gyfleoedd eraill godi. Fodd bynnag, rydym yn hyderus bod gennym dîm uchel ei ansawdd, a ymunodd â'r model oherwydd eu bod am wneud gwahaniaeth i fenywod a theuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru – yn ogystal ag i'w cydweithwyr ym maes bydwreigiaeth a all fod yn wynebu ailstrwythuro gwasanaeth sylweddol yn y misoedd nesaf.

Dros y deuddeg mis nesaf, mae'r Awdurdod Goruchwylio Lleol wedi ymroi i weithio'n agos gyda

phenaethiaid bydwreigiaeth a chynrychiolwyr yn y gweithle ar draws Cymru, er mwyn symud proses ymchwilio goruchwylwyr bydwragedd yn agosach at y broses o lywodraethu a rheoli sefydliadol. Mae hwn yn gam yn y cyfeiriad cywir ar gyfer rhannu sgiliau ac arbenigedd proses ymchwilio goruchwylwyr bydwragedd. Un flaenoriaeth allweddol arall fydd proses gadarn hefyd ar gyfer llywodraethu gwybodaeth er mwyn storio cofnodion goruchwylwyr bydwragedd mewn ffordd ddiogel, yn enwedig ar gyfer cofnodion y broses ymchwilio, sydd i gael eu cadw am 25 mlynedd.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r tîm cyfredol o oruchwylwyr bydwragedd i ddangos ymhellach bod goruchwyliaeth yn adnodd gwerthfawr i'r proffesiwn bydwreigiaeth. Bydd canfyddiadau'r archwiliad ac elfennau allweddol y model yn cael eu defnyddio i ddatblygu model goruchwylio'r dyfodol y tu allan i ddeddfwriaeth reoleiddiol, a fydd yn canolbwyntio ar elfennau cefnogi, datblygu ac arwain y rôl goruchwylio.

**Atodiad A**

## Awdurdod Goruchwylio Lleol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

## Rhaglen ar gyfer Archwiliad Blynyddol o Safonau ar gyfer Goruchwylio Bydwragedd

**Dyddiad:** **6 Hydref 2015**
**Lleoliad:** **Ystafell Grefftau i Rieni, Ysbyty Nevill Hall, Y Fenni**

| | | **Diwrnod 1** |
|---|---|---|
| **Rhif** | **Amser** | **Gweithgaredd** |
| **1** | 09:00 | **Cyrraedd a Choffi** |
| **2** | 09:30 | Cyflwyniad gan dîm adolygu'r Awdurdod Goruchwylio Lleol<br><br>Cyflwyniad Swyddog Bydwragedd yr Awdurdod Goruchwylio Lleol i nodi diben proses archwilio goruchwyliaeth 2015-16 a'r cyfeiriad goruchwyliaeth ar gyfer y dyfodol a bennwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth<br><br>Gwahoddwyd – Y Cyfarwyddwr Nyrsio<br>Pennaeth Bydwreigiaeth ac Uwch Fydwragedd<br>Cyfarwyddwr Clinigol<br>Bwrdd Iechyd a Llywodraethu Mamolaeth / Arweinwyr Risg<br>Y Fydwraig Arweiniol ar gyfer Addysg<br>Cadeirydd Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth<br>Dolen gyswllt cynghorau iechyd cymuned ar gyfer gwasanaethau mamolaeth<br>Cynrychiolwyr y gweithle<br>Goruchwylwyr bydwragedd preswyl a'r rhaglenni paratoi goruchwylwyr bydwragedd |
| **3** | 10:00 | Cyflwyniad trosolwg 15 munud a bwrdd stori gan oruchwylwyr bydwragedd lleol i gynnwys:<br><br>1. Crynodeb o gynnydd o ran darparu'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer 2015-2016<br>2. Enghreifftiau o arfer da a llwyddiannau'r tîm goruchwylwyr bydwragedd lleol<br>3. Enghreifftiau o ddysgu'r gwersi/cau'r ddolen yn dilyn ymchwiliadau goruchwylio<br>4. Meincnodi yn erbyn y gwersi a ddysgwyd o Guernsey a Kirkup<br><br>15 munud Holi ac Ateb |
| **4** | 10:30-11:00 | **Egwyl** |

<table>
<tr><td></td><td></td><td>Tîm Adolygu A</td><td>Tîm Adolygu B</td></tr>
<tr><td>5</td><td>11:30</td><td>Rhaglenni Paratoi Goruchwylwyr Bydwragedd – Suzanne Collins, Elaine Derrick a Sue Rees</td><td>Sam Davies – Cadeirydd Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth</td></tr>
<tr><td>6</td><td>12:00</td><td>Cyfarfod: Jayne Beasley – Uwch-reolwr Bydwreigiaeth/Risg</td><td>Bydwraig Glinigol</td></tr>
<tr><td>7</td><td>12:30</td><td>Cyfarfod: Anne York – Y Fydwraig Arweiniol ar gyfer Addysg</td><td>Kerry Phillips – Uwch-reolwr Bydwreigiaeth/Risg</td></tr>
<tr><td>9</td><td>13:00</td><td colspan="2">Cinio</td></tr>
<tr><td>10</td><td>14:30</td><td colspan="2">Adolygu cerdyn sgorio ail chwarter y flwyddyn gyda’r Pennaeth Bydwreigiaeth a'r tîm goruchwylwyr bydwragedd lleol</td></tr>
<tr><td>11</td><td>15:00-16:00</td><td colspan="2">Clinigol er mwyn gwirio'r dystiolaeth mewn amgylchedd clinigol</td></tr>
<tr><td colspan="4">Diwrnod 2<br>Dyddiad: 7 Hydref 2015<br>Lleoliad:Ystafell Seminar, Prif Uned Geni, Ysbyty Brenhinol Gwent</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td>Tîm Adolygu A</td><td>Tîm Adolygu B</td></tr>
<tr><td>1</td><td>09:00</td><td rowspan="2">Teithio i Bencadlys Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan – Ysbyty Sant Cadog, Caerllion</td><td>Bydwraig Glinigol</td></tr>
<tr><td>2</td><td>09:30</td><td>Carol Bennett – Y Fydwraig Arweiniol ar gyfer Diogelu</td></tr>
<tr><td>3</td><td>10:30</td><td>Cyfarwyddwr Nyrsio – Denise Llewellyn</td><td rowspan="2">Gwirio tystiolaeth yn yr amgylchedd clinigol</td></tr>
<tr><td>4</td><td></td><td>Teithio i Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd</td></tr>
<tr><td>5</td><td>12:30</td><td>Dave Williams, Cyfarwyddwr yr Is-adran Gwasanaethau Teulu a Therapi</td><td>Bydwraig Lywodraethu – Lorraine Watkins</td></tr>
<tr><td>6</td><td>13:00</td><td colspan="2">Cinio</td></tr>
<tr><td>7</td><td>13:30</td><td colspan="2">Tîm Adolygu’r Awdurdod Goruchwylio Lleol i grynhoi eu canfyddiadau a drafftio gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad</td></tr>
<tr><td>8</td><td>15:00</td><td colspan="2">Adborth i’r Pennaeth Bydwreigiaeth a goruchwylwyr bydwragedd, gan gynnwys crynodeb o’r diwrnod a’r camau nesaf</td></tr>
</table>

## Atodiad B

**Rhestr o Gyfranogwyr yn y broses Archwilio Flynyddol – Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan**

**Cyfarwyddwr Nyrsio** – Denise Llewellyn

**Pennaeth Bydwreigiaeth** – Deb Jackson

**Uwch-reolwr Bydwreigiaeth –** Louise Taylor

**Uwch-reolwr Bydwreigiaeth –** Kerry Phillips

**Uwch-reolwr Bydwreigiaeth –** Jayne Beasley

**Uwch-reolwr Bydwreigiaeth –** Lesley Constance

**Pennaeth Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth –** Sam Davies

**Bydwragedd Addysg –** Ann York

**Bydwraig Risg/Llywodraethu –** Lorraine Watkins

**Bydwraig Ddiogelu** – Carol Bennett

**Aelodau'r tîm goruchwylwyr bydwragedd –Paquita Sanges, Karen Phillips New, Cath Norman**

**Goruchwylwyr bydwragedd dan hyfforddiant –** Suzanne Collins, Elaine Derrick a Sue Rees

**Pobl a siaradodd â thîm yr Awdurdod Goruchwylio Lleol**

Bydwragedd ym meysydd clinigol Ysbyty Neville Hall ac Ysbyty Brenhinol Gwent

Bydwragedd dan hyfforddiant

**Ymddiheuriadau:** Dim